Page

# Lansio gwerth £100m o Grantiau Treftadaeth Gorwelion

19/06/2019




Bydd Grantiau Treftadaeth Gorwelion yn buddsoddi £100miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf mewn prosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsnewidiol a fydd yn chwyldroi treftadaeth y DU.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn chwilio am sefydliadau treftadaeth ledled y DU i gyflwyno ceisiadau ysbrydoledig i sicrhau cyllid o £5m neu fwy gan Grantiau Treftadaeth Gorwelion.

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae bron i 200 o brosiectau gwerth £5m a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol wedi dod ag oes aur i dreftadaeth y DU. Maen nhw wedi rhoi hwb digyffelyb i swyddi, twristiaeth ac economïau lleol.

## Buddsoddiad o bwys gan y Loteri Genedlaethol

Mae Grantiau Treftadaeth Gorwelion, a gafodd eu treialu am y tro cyntaf yn lansiad ein Fframwaith Cyllid Strategol newydd ym mis Ionawr, yn cymryd y math yma o fuddsoddiad ar raddfa fawr gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth i'r lefel nesaf.

"Mae'r Loteri Genedlaethol wedi cynhyrchu symiau enfawr o arian i fuddsoddi mewn prosiectau treftadaeth ac mae pob rhan o'r DU wedi elwa ar rai o'n dyfarniadau cyllid mwyaf," meddai'r Prif Weithredwr Ros Kerslake.

> "Eleni rydyn ni'n dathlu 25 mlynedd o’r Loteri Genedlaethol ac mae'n foment bwysig i fyfyrio ar ba mor drawsnewidiol fu'r model ariannu unigryw yma ar gyfer ein treftadaeth."

“Rydym yn hynod o gyffrous am y 25 mlynedd nesaf ac mae'r £100m yma’n gam hynod bwysig ar y daith honno.”


QUEEN ELIZABET

- Yr Amgueddfa Brydeinig sydd wedi'i hariannu gan y Loteri Genedlaethol

## Beth rydym yn chwilio amdano

Mae nifer o ofynion ar gyfer ymgeiswyr posibl, gan gynnwys:

- Bydd angen i brosiectau gael cynigion sylweddol ar gyfer cydnabod cyfraniad y Loteri Genedlaethol. Am y tro cyntaf, gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ddewis negodi hawliau enwi.
- Croesewir ceisiadau gan ystod lawn o dreftadaeth. Wrth wneud y penderfyniadau ariannu, bydd ffocws penodol ar flaenoriaethau strategol cyfredol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – tirwedd a natur; a threftadaeth mewn perygl.
- Bydd cam 'Datganiad o Diddordeb' yn rhoi arweiniad cynnar i ymgeiswyr ynghylch a ydynt yn debygol o fod yn llwyddiannus ai peidio.
- Bydd yr ymgeiswyr mwyaf addawol i'r cam Datganiad o Ddidordeb yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion prosiect i banel o Ymddiriedolwyr.
- Yna bydd rhestr fer o 10-12 o gynigwyr llwyddiannus a wahoddir i wneud cais yn cael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, gyda chyllid datblygu ar gael.
- Bydd angen i bob ymgeisydd llwyddiannus fod wedi dangos cynigion eithriadol ar gyfer cynnwys ystod eang o bobl mewn treftadaeth.

Cafodd y grantiau mawr olaf ar gyfer treftadaeth eu gwneud ym mis Mai 2017.

"Nid yw'n gyfrinach bod y galw am arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da yn fwy o lawer na'r arian sydd ar gael, a buom yn meddwl yn ddwys iawn ynghylch a allem barhau i fuddsoddi mewn prosiectau mor fawr," Eglurodd Ros.

"Pan wnaethom ni ymgynghori, roedd yn amlwg i ni, pe byddem yn rhoi'r gorau iddi, ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw un arall yn gallu camu i'r adwy, ac na fyddai prosiectau treftadaeth trawsnewidiol mawr yn digwydd."



Stonehenge sydd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol

## Prosiectau mawr rydym wedi'u hariannu yn y gorffennol

Mae prosiectau mawr sydd wedi derbyn cyllid yn rhychwantu amgueddfeydd a llyfrgelloedd, yn cynnwys:

- Amgueddfa Mary Rose
- Archif Sain y Llyfrgell Brydeinig
- Yr Amgueddfa Ddylunio
- V&A Dundee

atyniadau treftadaeth megis

- Jodrell Bank
- Alexandra Palace
- HMS Caroline
- Stonehenge
- SS Great Britain
- Bletchley Park
- Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

atyniadau hanesyddol mewn trefi a dinasoedd

- Piece Hall, Halifax

byd natur a'r awyr agored megis

- Y Great Fen
- Gerddi Botaneg Sheffield
- Roundhay Park, Leeds
- Y Sill, Northumberland

A saith o'r 10 atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd yn y DU

- Yr Amgueddfa Brydeinig
- Yr Oriel Genedlaethol
- Canolfan Southbank
- Amgueddfa Hanes Naturiol
- Amgueddfa Wyddoniaeth
- y V&A
- Somerset House

## Sut i ymgeisio

Cewch ragor o wybodaeth ar sut i ymgeisio ar dudlaen Grantiau Treftadaeth Gorwelion.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

### Grantiau Treftadaeth Gorwelion: grantiau o £5miliwn a mwy






## Anelu’n uchel: sut i ymgeisio am Grantiau Treftadaeth Gorwelion